CD3

# TYFU BWYD

## Pam tyfu bwyd?

- Mae'n darparu profiadau dysgu cyfoethog, dilys
- Gall garddio gyda'i gilydd gryfhau'r cysylltiadau rhwng ysgol a'i chymuned.
- Mae trochi eu dwylo yn helpu i gysylltu plant a phobl ifanc â byd natur.
- Mae garddio yn cryfhau systemau imiwnedd plant a phobl ifanc.
- Mae gweithio mewn gardd ysgol yn helpu plant a phobl ifanc i gadw'n heini, gan helpu i leihau gordewdra.
- Mae garddio yn cymedroli hwyliau ac yn lleddfu pryder.
- Mae plant a phobl ifanc sy'n garddio yn yr ysgol yn datblygu empathi ac yn ymarfer risg.
- Mae addysgu a gerddi bwyd yn gwella deiet plant a phobl ifanc.

## Beth sydd ei angen arnoch?

- *Dillad tywydd gwlyb a menig garddio*
- *Offer garddio – gan gynnwys offer llaw yn ogystal â whilberi/berfâu, rhawiau, rhacanau/cribiniau, hofiau, bwcedi, ysgubau a brwshys*
- *Pibell ddŵr, caniau dyfrio a photeli chwistrellu – bydd hyn yn sicrhau na fydd planhigion byth yn brin o ddŵr!*
- *Tap y tu allan yn sicrhau cyflenwad dŵr trwy gydol y flwyddyn*
- *Casgen ddŵr – yn darparu cyflenwad dŵr cyfleus i blant ac mae'n ecogyfeillgar*
- *Potiau planhigion a chynwysyddion wedi eu huwchgylchu ar gyfer tyfu perlysiau.*
- *Potel blastig ailddefnydd i amddiffyn eginblanhigion*
- *Potiau tyfu bioddiraddadwy ar gyfer eginblanhigion.*
- *Twnnel Plastig bach/Tŷ gwydr/Twnnel Plastig*
- *Pridd, tyweirch, compost, bagiau tyfu*
- *Gwelyau uchel/llain llysiau - yn darparu cyfleoedd ar gyfer dysgu trwy brofiad uniongyrchol. Bydd gan blant ddealltwriaeth well o ffynonellau bwyd a gallant hyd yn oed arbrofi gyda bwydydd newydd o ganlyniad i dyfu eu llysiau eu hunain*
- *Amrywiaeth o hadau, planhigion, perlysiau – mae'n bwysig gwirio eu bod yn gyfeillgar i blant.*
- *Bin/tomen gompost – mae'n darparu cyfleoedd i blant ddeall cysyniadau gwyddonol a dod yn fwy ymwybodol yn ecolegol*
- *Siswrn tocio, llif tocio, gwellau ar gyfer tocio*
- *Gwiail a delltwaith, cordyn/llinyn neu glymau a chaewyr plastig*
- *Labeli a marcwyr sy'n addas ar gyfer tywydd tu allan*
- *Llyfrau gwybodaeth, posteri, cardiau gwybodaeth ac ati mewn bocs/basged y gellir ei gludo allan yn hawdd*

CD3

# TYFU BWYD

The Learning Partnership Wales

Big Bocs Bwyd

**Cysyniadau Allweddol** Twf, Newid, Tymoroldeb, Cylchredau Bywyd, Pydredd, Cynaliadwyedd

### Cwestiynau Allweddol

A yw'n bosib tyfu bwyd trwy gydol y flwyddyn?
Beth yw'r amodau sydd eu hangen ar gyfer tyfu gwahanol fwydydd?
Pa effaith mae tywydd a hinsawdd yn ei chael ar y math o fwydydd y gallwn eu tyfu?
Sut gallwn ni amddiffyn planhigion rhag y tywydd?
Beth allwn ni ei goginio gyda'r bwydydd rydyn ni'n eu tyfu?
Sut gallwn ni dyfu bwyd mewn mannau cyfyngedig/amgylchedd trefol?
Beth yw'r materion ymwneud â chynaliadwyedd y mae angen i ni eu hystyried wrth dyfu bwyd?

### Pethau i'w tyfu

| | |
|---|---|
| **Perlysiau** | Persli Deilen Fflat, Coriander, Basil, Dil |
| **Saladau** | Amrywiaeth o Ddail Salad, Ciwcymbr, Tomatos, Sbigoglys |
| **Llysiau** | Pwmpenni, Ffa Llydan, Aubergines, Erfin/Maip, Tatws Melys, Bresych, Ysgewyll |
| **Ffrwythau** | Llus, Ceirios, Afalau, Gellyg |

## Profiadau dysgu posib

- Darganfod sut, pryd a ble i dyfu perlysiau, ffrwythau a llysiau
- Ymchwilio i 'fwyd tymhorol'. Pa ffactorau sy'n dylanwadu ar hyn?
- Cynllunio'r gylchred flynyddol ar gyfer tyfu bwyd. Ystyried ffyrdd o sicrhau bod bwyd ar gael drwy gydol y flwyddyn
- Paratoi'r pridd ar gyfer y twf gorau posibl. Gwella'i ansawdd gan ddefnyddio dulliau ecogyfeillgar
- Darganfod pa hadau/planhigion sydd angen eu hamddiffyn gan dŷ gwydr/twnnel plastig
- Plannu amrywiaeth o hadau mewn potiau, cynwysyddion patio, gwelyau uchel, llain llysiau
- Plannu bwydydd sydd angen eu hamddiffyn yn y tŷ gwydr/twnnel plastig.
- Dod o hyd i gynwysyddion wedi'u hailgylchu a'u defnyddio i blannu hadau ynddynt. Nodi ffyrdd o ddiogelu planhigion ym misoedd y Gaeaf. Ystyried ffyrdd arloesol o ailddefnyddio ac ailgylchu, er enghraifft, torri topiau poteli plastig a gosod yr haneri isaf pen i waered i orchuddio eginblanhigion
- Llunio ddyluniad/cynllun graddedig ar gyfer plannu mewn gwelyau uchel/gerddi llysiau. Mesur perimedr ac arwynebedd yn gywir i lywio eich cynllun
- Darganfod ffyrdd o farcio llinell syth ar gyfer plannu mewn gwelyau uchel/lleiniau llysiau
- Mesur yn gywir i wneud yn siŵr bod gan blanhigion unigol ddigon o le i dyfu
- Adeiladu fframweithiau i gynnal planhigion sydd eu hangen, er enghraifft, trybeddau i gynnal ffa gwyrdd
- Cofnodi'r broses 'had i blât' mewn gwahanol ffyrdd. Gwneud nodiadau manwl o newidiadau y gellir eu gweld
- Arsylwi'r planhigion yn rheolaidd a chofnodi eu twf gan ddefnyddio lluniadau wedi'u labelu, ffotograffau ac ysgrifen
- Cadw cofnod dyddiol o dymheredd, glawiad ac amodau tywydd cyffredinol
- Creu labeli a chyfarwyddiadau gofalu ar gyfer y planhigion. Ychwanegu'r dyddiad plannu a dyddiad disgwyliedig y cynhaeaf
- Gwneud eich labeli'n amlieithog gyda Chymraeg, Saesneg, ac ieithoedd cymunedol
- Gofalu am eich planhigion gan roi'r amodau tyfu gorau iddynt. Gwybod pryd a sut i docio
- Pan fydd eich cynnyrch yn barod dechrau ei gynaeafu
- Defnyddio'r cynnyrch rydych chi wedi'i dyfu i baratoi byrbrydau, saladau a phrydau syml ar gyfer ffrindiau a theulu
- Tyfu cawl – moron a coriander
- Gwerthu perlysiau, ffrwythau a llysiau dros ben yn y Big Bocs Bwyd
- Darparu cynnyrch i gegin yr ysgol i'w ddefnyddio ar gyfer prydau ysgol
- Hyrwyddo blog/gwefan i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'ch cymuned am eich cynnyrch gardd

### Gwefannau defnyddiol

https://schoolgardening.rhs.org.uk/home
https://www.growveg.co.uk/guides/how-to-set-up-a-school-garden/
https://learn.eartheasy.com/guides/how-to-start-a-school-garden-your-complete-guide/
https://www.quickcrop.co.uk/blog/grow-school-vegetable-garden/

CD3

# TYFU BWYD

The Learning Partnership Wales

Big Bocs Bwyd

## Pedwar Pwrpas

### Dysgwyr uchelgeisiol, galluog

Holi a mwynhau datrys problemau

### Unigolion iach, hyderus

Meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth i reoli bywyd bob dydd mor annibynnol ag y gallant

### Cyfranwyr mentrus, creadigol

Cysylltu a chymhwyso eu gwybodaeth a'u sgiliau i greu syniadau a chynhyrchion

### Dinasyddion moesegol, gwybodus

Deall ac ystyried effaith eu gweithredoedd wrth wneud dewisiadau a gweithredu

## Sgiliau Annatod

### Creadigrwydd ac arloesedd

Gweithredu ar gyfleoedd a syniadau a'u trawsnewid i werth

### Meddwl yn feirniadol a datrys problemau

Herio argraffiadau

### Effeithiolrwydd personol

Annibyniaeth
Arweiniad

### Cynllunio a Threfnu

Cyfrifoldeb a dibynadwyedd

## Yr Hyn Sy'n Bwysig

**Gwydd-Tech**
Mae'r byd yn llawn o bethau byw sy'n dibynnu ar ei gilydd i oroesi

**I&Ll**
Mae ein penderfyniadau yn effeithio ar ansawdd ein bywydau a bywydau pobl eraill

**M&Rh**
Mae mesur yn canolbwyntio ar feintioli ffenomenau yn y byd ffisegol

## Disgrifiadau o Ddysgu

Gallaf ddisgrifio sut mae pethau byw yn cystadlu am adnoddau penodol ac yn dibynnu ar ei gilydd i oroesi.

Gallaf gydnabod y bydd rhai penderfyniadau a wnaf yn cael effaith hirdymor ar fy mywyd a bywydau pobl eraill.

Gallaf amcangyfrif a mesur hyd, cynhwysedd, màs, tymheredd ac amser, gan ddefnyddio unedau safonol priodol.

## Sgiliau Trawsgwricwlaidd

| | M&Rh / M&N | ILlC | FfCD |
|---|---|---|---|
| Bl. 4 | **M&Rh**<br>Dewis a defnyddio unedau safonol priodol i amcangyfrif a mesur hyd/uchder, pwysau/màs, cyfaint/cynhwysedd<br>Cymryd darlleniadau tymheredd gan ddefnyddio thermomedrau a dehongli darlleniadau uwchlaw ac islaw 0°C | **ILlC**<br>Archwilio a defnyddio gwahanol fathau o ysgrifennu ar sgrin yn briodol er mwyn rhyngweithio ag eraill, e.e. gwefannau, e-byst, blogiau | **FfCD**<br>Creu ac addasu cydrannau amlgyfrwng gan ddefnyddio amrywiaeth o feddalwedd |
| Bl. 5 | **M&Rh**<br>Defnyddio offer mesur gyda 10 rhaniad cyfartal rhwng pob prif uned, a chofnodi gan ddefnyddio nodiant degol<br>Mesur a chofnodi tymereddau sy'n cynnwys darlleniadau positif a negatif | **ILlC**<br>Archwilio gynllun tudalennau gwe i greu deunydd gan ddefnyddio'r offer sydd ar gael | **FfCD**<br>Cyfuno ystod o gydrannau amlgyfrwng i gynhyrchu canlyniad priodol |
| Bl. 6 | **M&N**<br>Darllen a dehongli graddfeydd neu raniadau ar ystod o offer mesur<br>Mesur a chofnodi tymereddau sy'n cynnwys darlleniadau positif a negyddol | **ILlC**<br>Archwilio gwahanol ffyrdd o gyflwyno gwaith a'u defnyddio'n briodol, e.e. delwedd symudol, sleidiau, troslais | **FfCD**<br>Defnyddio amrywiaeth o feddalwedd yn annibynnol i gynhyrchu a mireinio cydrannau amlgyfrwng |